



Diwygiadau i'r Lwfans i Fyfirwyr Anabl Rhagolwg Ymgysylltu â'r Farchnad

Chwefror 2022



Cynnwys

Adran	Tudalen
1. Rhagair	03
2. Cyflwyniad i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr	04
3. Ynghylch y Lwfans i Fyfrwyr Anabl	08
4. Lwfans i Fyfrwyr Anabl – model gwasanaeth newydd	12
5. Y cyfleoedd i gynigyddion	14



Adran 1

Rhagair

Diolch i chi am eich diddordeb mewn creu gwell profid i fyfyrwyr sy'n derbyn Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA).

Gweledigaeth y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) yw i gael ein cydnabod fel sefydliad sy'n galluogi cyfleoedd i fyfyrwyr ac yn darparu profiad rhagorol i'r cwsmer o ran cyflawniad effeithiol polisiau cyllid addysg bellach ac addysg uwch pedair Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae'r caffael hwn, a'r gwelliannau i daith y cwsmer y bydd yn eu galluogi, yn mynd â ni gam yn nes at wireddu'r weledigaeth hon.

Mae darparu DSA yn wasanaeth cyhoeddus pwysig – hanfodol i alluogi cyfleoedd ac ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch.

Daeth y diwygiadau a nodir yn y ddogfen hon i fodolaeth o ganlyniad i benderfyniad y llywodraeth i roi contractau cyfreithiol cynaliadwy ar waith ar gyfer cyflenwi asesiadau anghenion astudio, technoleg gynorthwyol a hyfforddiant technoleg gynorthwyol. Gan weithio gyda'n cydweithwyr yn Adran Addysg (DfE) Llywodraeth y DU ac Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru, rydym wedi achub ar y cyfle hwn i wneud gwelliannau sylweddol i brofiad myfyrwyr sy'n dibynnu ar DSA am y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag astudio y gallent eu hwynebu mewn addysg uwch oherwydd anabledd.

Mae myfyrwyr sy'n cael DSA yn dweud wrthym pa mor bwysig yw'r cymorth hwn i'w helpu i gyflawni eu nodau addysgol. Ond fel rhan o'n hymchwil maen nhw hefyd wedi dweud wrthym ni fod y broses bresennol yn rhy hir a'u bod yn ei chael hi'n anodd iddynt gysylltu â nifer o gwmnïau i drefnu eu cefnogaeth. Maent yn teimlo nad oes neb yn berchen ar eu taith i sicrhau cefnogaeth.

Nid ydym yn ystyried ei bod yn dderbyniol y gallai anawsterau unigol cwsmer wrth ymgysylltu â'r broses DSA a chyflenwyr gyfyngu ar botensial addysgol.

Ein hamcan, felly, yw gwella profiad y cwsmer hwnnw ac, ochr yn ochr â hynny, gwella tryloywder a rheolaethau a sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr a'n cwsmeriaid.

Edrychwn ymlaen at weithio mewn partneriaeth â chi i greu profiad DSA gwell.



Paula Sussex
Prif Weithredwr

Cyflwyniad i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr


Gweledigaeth y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr:

“Mae SLC yn cael ei gydnabod fel sefydliad sy'n galluogi cyfleoedd i fyfyrwyr ac yn darparu profiad rhagorol i'r cwsmer o ran cyflawniad effeithiol polisiau cyllid addysg bellach ac addysg uwch pedair Llywodraeth y Deyrnas Unedig.”

Sefydliad dielw yw SLC sy'n eiddo i'r llywodraeth sy'n gweinyddu benthyciadau a grantiau i tua dwy filiwn o fyfyrwyr newydd a rhai sy'n dychwelyd mewn colegau a phrifysgolion yn y DU bob blwyddyn.

Y llynedd, fe wnaethom ariannu'r nifer uchaf erioed o fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd yng Nghymru a Lloegr, ar ôl llwyddo i dalu dros £21 biliwn mewn benthyciadau cynhaliath a benthyciadau ffioedd dysgu (ar ran myfyrwyr) i brifysgolion a cholegau.

Yn gyffredinol, mae SLC bellach yn gwasanaethu 8.5 miliwn o gwsmeriaid ac yn rheoli llyfr benthyciad gwerth £177.9bn; ac rydym yn parhau i dyfu – o ran niferoedd cwsmeriaid, gwerth llyfr benthyciad a chylch gwaith ein cyfrifoldebau.






Rydym yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi sector addysg uwch a phellach y DU drwy:

- reoli'r broses 'ymgeisio, asesu, talu ac ad-dalu' pen i ben ar gyfer cyllid myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr
- darparu'r gwasanaeth talu ac ad-dalu yn yr Alban a Gogledd Iwerddon
- cynnal pyrth asesu ac ar-lein ar gyfer y gwasanaeth hwn yng Ngogledd Iwerddon
- rheoli gwasanaethau Addysg Bellach ac Ôl-raddedig wedi'u teilwra i ofynion pob un o weinyddiaethau'r Llywodraeth
- ddarparu grantiau cymorth wedi'u targedu, megis y DSA, yr ydym yn ei weinyddu ar gyfer dau o'n cyfranddalwyr, Adran Addysg Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru
- gweinyddu taliadau bwrsariaeth ar ran llawer o ddarparwyr addysg uwch
- gweithio gyda CThEM i gasglu ad-daliadau drwy TWE a hunanasesiad
- casglu ad-daliadau uniongyrchol ar gyfer y rheini y tu allan i'r DU neu'n agos at ddiwedd eu tymor ad-dalu.

Er mwyn darparu'r gwasanaethau hanfodol hyn, ar hyn o bryd mae gan SLC dros 3,000 o weithwyr, gan gynnwys dros 200 o weithwyr sy'n ymroddedig i ddarparu DSA yn ein swyddfeydd yn Darlington a Chyffordd Llandudno.


Rôl tîm DSA SLC yw gweinyddu'r grant ar ran yr Adran Addysg a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys asesu ceisiadau i gadarnhau cymhwysedd, cymeradwyo'r argymhellion a dderbyniwyd gan yr aseswyr anghenion yn adroddiad asesiad anghenion y cwsmer a chydgysylltu â chyflenwyr.



Mae gweledigaeth SLC wedi'i hategu gan bum **nod strategol**, a fydd yn ystyriaethau pwysig yn y broses gaffael hon:

<p>Darparu profiad rhagorol i gwsmeriaid</p> 	<p>Byddwn yn darparu gwasanaethau sythweledol, di-dor a thryloyw sy'n cyd-fynd â thaith y cwsmer ac a gefnogir gan systemau sy'n cynnig gwybodaeth glir a hygyrch. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gan ein cwsmeriaid fynediad at arbenigedd cyllid myfyrwyr y gellir ymddiried ynddo a byddwn yn cydweithio â Sefydliadau Addysg Uwch i gefnogi ymrwymiad SLC i ddarparu'r profiad gorau posibl i gwsmeriaid.</p>
<p>Bod yn alluogwr cyfleoedd, i fyfyrwyr ac i'r economi ehangach</p> 	<p>Byddwn yn cael ein cydnabod fel galluogwr cyfleoedd drwy ddarparu cyllid myfyrwyr yn ddibynadwy ac yn ddiogel, helpu cwsmeriaid i fuddsoddi yn eu dyfodol a chefnogi twf economaidd hirdymor economi'r DU. Wrth gyflawni ein cenhadaeth graidd, byddwn yn cael ein hystyried yn gymwys, yn enwedig o ran sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i drethdalwyr.</p>
<p>Bod yn llai gwastraffus, gan wneud mwy ar lai</p> 	<p>Byddwn yn darparu cyllid myfyrwyr yn ddiogel trwy atebion technoleg hyblyg, cynaliadwy a diogel i optimeiddio darpariaeth, lleihau costau a helpu amddiffyn SLC rhag ymosodiadau seiber. Bydd gennym hyder yng nghywirdeb a chyfanrwydd ein data a byddwn yn ei ddefnyddio i wella effeithlonrwydd gweithredol a pherfformiad. Byddwn yn datblygu diwylliant o welliant parhaus ac yn awtomeiddio neu'n allanoli gweithgarwch cyfaint uchel, cymhlethdod isel tra bod SLC yn dod yn ganolfan ragoriaeth lai gan reoli gwaith mwy cymhleth.</p> <p>Yn Ad-daliadau, byddwn wedi gwella perfformiad casglu drwy sicrhau'r cwmpas gorau posibl, lleihau gollyngiadau a strategaethau rheoli dyled segmentiedig wedi'u teilwra.</p>
<p>Bod yn lle gwyach i weithio</p> 	<p>Byddwn yn adeiladu gweithlu mwy medrus, brwdfrydig, amrywiol ac ymgysylltiol trwy ddatblygiad a dilyniant cydweithwyr a dod yn lle rhagorol i weithio. Bydd brand cyflogwr gwell, wedi'i ategu gan enw da allanol cryfach, a chynnig gwobrau SLC yn ein helpu i gadw a denu pobl dda.</p>
<p>Bod yn bartner cyflawni yr ymddiriedir ynddo i gyfranddalwyr</p> 	<p>Bydd ein cyfranddalwyr yn ein gweld fel partner cydweithredol yr ymddiriedir ynddo wrth gyflawni polisi'r Llywodraeth yn effeithlon ac ystywyth a bydd trethdalwyr yn ymddiried ynom gyda'u harian. Byddwn yn cefnogi cyfranddalwyr i symleiddio a rhesymoli'r dirwedd polisi lle bynnag y bo modd, gan alinio bwriad polisi'n well â darpariaeth effeithlon ac anghenion defnyddwyr profedig, sicr.</p>

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyrraedd y nodau hyn, i raddau helaeth drwy ein rhaglen drawsnewid, fel y disgrifir yn ein [Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon](#) diweddaraf.



Fel rhan o'n trawsnewid parhaus, mae SLC yn creu strategaeth profiad cwsmer ganolog a fydd yn cyflwyno gwelliannau a arweinir gan fewnwelediad i daith y cwsmer o un pen i'r llall.

Mae ein Panel Cwsmeriaid Cyllid Myfyrwyr newydd, sy'n cynnwys darpar fyfyrwyr, myfyrwyr presennol a chyn-fyfyrwyr, yn rhoi ein cwsmeriaid wrth galon y strategaeth newydd hon. Mae myfyrwyr sy'n derbyn DSA yn eistedd ar y panel hwn ac, yn ogystal, rydym hefyd wedi sefydlu Panel Cwsmeriaid Cyllid Myfyrwyr DSA pwrpasol i gynnig mewnwelediad a chymorth i lywio'r model gwasanaeth newydd.

Rydym yn gweithio'n galed i gryfhau ein henw da am ddibynadwyedd a chymhwysedd ac mae cydnabyddiaeth gynyddol bod gan SLC ffocws brwd ar wella profiad ein cwsmeriaid. Mae hyn yn bwysig i SLC ac rydym yn chwilio am bartneriaid sy'n parchu'r nodau hyn ac sy'n gallu dangos gwerthoedd tebyg ac ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gwsmeriaid.



Ynghylch y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl

Nifer o fyfyrwyr DSA newydd a gefnogir pob blwyddyn oddeutu

40,000 

Cyfanswm asemiadau anghenion blynyddol oddeutu

£136m 

Gwariant DSA blynyddol ar offer technoleg gynorthwyol oddeutu

£41m 

Gwariant DSA blynyddol ar hyfforddiant technoleg gynorthwyol oddeutu

£3m 

Gwariant DSA blynyddol ar asemiadau anghenion oddeutu

£30m 

Gwariant DSA blynyddol ar help anfeddygol a theithio oddeutu

£62m 

Mae DSA yn hanfodol i alluogi cyfleoedd ac ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch.

Comisiynodd yr Adran Addysg IFF Research i gynnal ymchwil i brofiadau myfyrwyr o'r DSA yn 2018, a ganfu fod:

- tua dwy ran o dair (68%) o'r derbynwyr DSA a holwyd yn cytuno bod y cymorth a roddwyd iddynt yn eu galluogi i gyfranogi'n llawnach yn eu cwrs nag y byddent yn gallu fel arall;
- ymatebodd 37% o dderbynwyr DSA na allent fod wedi gwneud eu cwrs heb gael cymorth gan y DSA;
- dywedodd tri o bob pump (59%) o dderbynwyr DSA a nododd eu bod yn teimlo'n hyderus ynghylch pasio eu cwrs na fyddent yn teimlo'n hyderus ynghylch pasio eu cwrs heb dderbyn DSA; ac
- yn nodedig, roedd yn ymddangos bod DSA yn bwysicach i rai grwpiau 'ehangu cyfranogiad' megis myfyrwyr aeddfed, myfyrwyr Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), myfyrwyr ag anabledd corfforol neu synhwyrdd neu â dau anabledd neu fwy, a myfyrwyr nad oedd eu rhieni wedi mynychu addysg uwch.

¹Yr Adran Addysg ac IFF Research. Evaluation of disabled students' allowances. Ionawr 2019. Ar gael ar:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/770546/Evaluation_of_DSAs_Report_IFF.pdf

Trwy waith profiad defnyddiwr SLC ei hun, mae myfyrwyr sy'n derbyn DSA wedi dweud wrthym pa mor hanfodol yw'r gefnogaeth hon iddynt:



"Rwy'n hynod ddiolchgar am y cymorth gan y DSA trwy SLC. Mae wedi cael effaith gadarnhaol ar fy ngallu i astudio'n llwyddiannus."



"Roeddwn i'n cael cymorth oherwydd fy nyslecsia ac fe wnaeth i mi deimlo'n ddiogel."



"Fe wnes i gais am DSA hefyd ac roeddwn i wrth fy modd gyda'r holl help ges i a pha mor gyfeillgar oedd y bobl. Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fy nghyfranogiad yn y Brifysgol!"



"Fy mhrofiad i oedd bod yr holl staff y siaradais â nhw yn garedig a gofalgar, yn amyneddgar iawn gyda mi ac wedi gwneud i mi deimlo'n gyfforddus ynglŷn â fy mhroblemau cyfathrebu. Roeddwn hefyd yn teimlo eu bod wedi fy nghynorthwyo trwy gydol y broses gyfan ac roedd hynny'n galonogol iawn i rywun o'r un oedran ac anawsterau."



Ynghylch y Lwfans i Fyfirwyr Anabl

Nod DSA yw helpu myfirwyr cymwys gyda'r costau astudio ychwanegol y gallent eu hwynebu mewn addysg uwch oherwydd anabledd gan gynnwys cyflyrau iechyd hirdymor, cyflyrau iechyd meddwl, ac anawsterau dysgu penodol, megis dyslecsia. I fod yn gymwys ar gyfer DSA, rhaid i fyfirwyr fod ag anabledd fel y'i diffinnir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a bod yn fyfyrwr cymwys i ddiben cyllid myfirwyr.

Mae DSA yn darparu cyllid ar gyfer cymorth arbenigol, yn ogystal ag unrhyw addasiadau rhesymol a wneir gan ddarparwyr addysg uwch. Fe'i defnyddir i ariannu asesiad o anghenion, sef cyfweiliad un-i-un rhwng y myfyrwr ac asesydd anghenion i bennu anghenion cymorth y myfyrwr; a gellir ei ddefnyddio i brynu offer a meddalwedd arbenigol a'r hyfforddiant a'r cymorth i ddefnyddio offer o'r fath fel yr argymhellir yn eu hasesiad. Gellir ei ddefnyddio hefyd i dalu am gymorth anfeddygol, fel mentora arbenigol neu gymorth sgiliau astudio arbenigol, a theithio. Nid yw cymorth anfeddygol a theithio wedi'i gynnwys yng nghwmpas y caffael hwn.

Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021/22, uchafswm y cymorth DSA sydd ar gael i fyfyrwr a ariennir gan Student Finance England (SFE) yw £25,000 y flwyddyn academiaidd am bob blwyddyn y mae mewn addysg uwch. Ar gyfer myfyrwr a ariennir gan Gyllid Myfirwyr Cymru (CMC), uchafswm y cymorth DSA sydd ar gael fesul blwyddyn academiaidd ar gyfer pob blwyddyn y mae mewn addysg uwch yw uchafswm o £31,831. Gall myfirwyr cymwys wneud cais am DSA yn ychwanegol at, ac ar wahân i, gymorth cyllid myfirwyr ar gyfer benthyciadau ffioedd dysgu a benthyciadau/grantiau cynhaliath.

Mae DSA ar gael i bob myfyrwr cymwys mewn addysg uwch amser llawn, rhan-amser, dysgu o bell ac ôl-raddedig.

Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am weinyddu DSA i SLC fwy na 10 mlynedd yn ôl gan awdurdodau lleol. SLC sy'n gweinyddu'r grant ar ran cwsmeriaid sy'n hanu o Gymru a Lloegr, ac mae gan yr Alban a Gogledd Iwerddon drefniadau ar wahân drwy eu hawdurdodau datganoledig. Mae nifer y cwsmeriaid sy'n derbyn DSA wedi codi'n gyson yn yr amser hwn.





Sut mae'r broses bresennol yn gweithio

Yn dilyn cais, mae cwsmeriaid yn cyflwyno eu tystiolaeth anabledd i SLC i gadarnhau eu cymhwysedd, a gadarnheir i'r cwsmer ar ffurf llythyr DSA1.

Mae'r broses bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwsmer wedyn chwilio am, dewis a chysylltu ag aseswr anghenion trydydd parti allanol i drefnu asesiad anghenion astudio, i'w gynnal naill ai wyneb yn wyneb neu o bell yn ôl dewis y cwsmer.

Unwaith y bydd yr asesiad o anghenion wedi'i gynnal, mae'r asesydd anghenion yn rhoi adroddiad asesu anghenion (NAR) i SLC, sy'n argymhellu y cymorth sydd ei angen i alluogi'r cwsmer i oresgyn y rhwystrau sy'n ymwneud ag anabledd y bydd yn eu hwynebu ar y cwrs.

Unwaith y bydd yr NAR wedi'i gymeradwyo gan SLC, hysbysir y cwsmer o'i hawl i DSA trwy ohebiaeth y cyfeirir ato fel y llythyr DSA2.

Er mwyn defnyddio ei hawl, mae'n rhaid i'r cwsmer wedyn gysylltu â'r cyflenwyr perthnasol, a gall fod nifer ohonynt yn dibynnu ar y math o gymorth a argymhellir.

Unwaith y bydd yr asesiad a'r cymorth wedi'u cyflwyno, gwneir taliad gan SLC i'r cyflenwr perthnasol ar ran y myfyriwr. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw drefniadau cytundebol ar waith rhwng SLC a chyflenwyr gwasanaethau DSA; mae cytundebau ar hyn o bryd yn uniongyrchol rhwng pob cyflenwr a phob cwsmer DSA.

Ar hyn o bryd cefnogir y DSA gan nifer fawr o gyflenwyr masnachol a di-elw, llawer ohonynt yn fentrau bach a chanolig sy'n arbenigo mewn asesu anghenion, darparu technoleg gynorthwyol a/neu ddarparu hyfforddiant technoleg gynorthwyol.

Trwy ein Grŵp Rhanddeiliaid Myfyrwyr Anabl (DSSG) mae gennym nifer o berthnasoedd pwysig gyda chyrrff trydydd sector a grwpiau eiriolaeth yn y sectorau addysg ac anabledd, gan gynnwys Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS), y Comisiwn Myfyrwyr Anabl, Ymddiriedolaeth Thomas Pocklington, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar a Disability Rights UK. Mae'n bwysig bod y partneriaethau cyflenwyr a ffurfiwn yn adeiladu ar y berthnasoedd hyn gan y bydd y grwpiau hyn yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth ysgogi gwelliannau i ansawdd ein gwasanaeth ar ran ein cwsmeriaid.

Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl – model gwasanaeth newydd

Mae'r Adran Addysg a Llywodraeth Cymru wedi gofyn i SLC wneud trefniadau cytundebol ffurfiol ar gyfer cyflenwi asesiadau anghenion astudio, technoleg gynorthwyol a hyfforddiant technoleg gynorthwyol.

Bydd y model newydd yn gosod cyfrifoldeb ar un partner ym mhob un o bedwar rhanbarth y DU i ymgysylltu â'r cwsmer a llywio'r cwsmer drwy'r broses apwyntiad asesiad anghenion hyd at ddarparu offer a hyfforddiant technoleg gynorthwyol. Bydd y partner yn cael ei gomisiynu i ddarparu cymorth drwy gatalog o brisiau y cytunwyd arnynt.

O dan y model gwasanaeth newydd, unwaith yr asesir bod cwsmer DSA yn gymwys gan SLC, bydd manylion y cwsmer yn cael eu trosglwyddo i bartner rhanbarthol. Bydd y partner wedyn yn cysylltu â'r cwsmer i drefnu asesiad o anghenion, lle bydd anghenion y cwsmer yn cael eu pennu. Bydd SLC yn hysbysu'r cwsmer a'r partner o'r argymhellion y cytunwyd arnynt a bydd y partner yn cysylltu â'r cwsmer i drefnu i'w dechnoleg gael ei chyflwyno. Bydd y partner hefyd yn gyfrifol am osod, sefydlu ac ymglyfarwyddo'r cwsmer â'i offer a meddalwedd, y gall y cwsmer ddewis eu defnyddio os yw'n dymuno, ac yna darparu cymorth a hyfforddiant yn ôl yr angen.

Bydd gwasanaethau eraill, yn enwedig cymorth anfeddygol a theithio, yn aros yr un fath ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y caffael.

Ein gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth DSA newydd

Er nad yw polisi DSA, cymhwyster a hawl myfyrwyr yn newid; trwy'r broses gaffael hon, nododd SLC, yr Adran Addysg a Llywodraeth Cymru gyfle i wella'r ffordd y caiff DSA ei weinyddu.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer DSA yn un o wasanaeth sydd wedi'i drawsnewid a'i wella'n sylweddol. Bydd partneriaid sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd gofynnol yn gweithio gyda ni i gefnogi ein cwsmeriaid yn effeithlon ac yn dosturiol trwy'r broses DSA.

Ein hamcan cyntaf yw gwella profiad cwsmeriaid presennol myfyrwyr sy'n derbyn DSA, sy'n dameidiog, yn aml yn ddryslyd ac yn rhy araf. Mae taith y cwsmer yn wael ac fel y dangosir gan ymchwil a dadansoddiad helaeth, mae nifer sylweddol o bwyntiau poen o fewn taith y cwsmer y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae canfyddiadau ymchwil yn datgelu y gall hyn achosi straen a phryder i gwsmeriaid ac, mewn rhai amgylchiadau, arwain at roi'r gorau i'r broses yn gyfan gwbl a pheidio â chael y cymorth y mae ganddynt hawl iddo.

Mae taith y cwsmer yn rhy hir; ar gyfartaledd mae'n cymryd dros 100 diwrnod i fyfyrwyr gytuno ar eu cymorth yn dilyn eu cais. Mae hefyd yn rhy gymhleth ac yn faich gweinyddol i'r myfyriwr; mae myfyrwyr yn adrodd yn gyson bod gorfod delio â llawer o wahanol sefydliadau yn rhwystr iddynt sicrhau'r cymorth sydd ei angen arnynt ac y mae ganddynt hawl iddo.



Ac wrth gwrs, gyda'r nifer o bartïon dan sylw mae'n amhosib cael golwg unigol o'r myfyriwr a ble mae yn ei daith DSA.

Bydd ymgysylltu ag un partner rhanbarthol yn gwella profiad y cwsmer trwy ddileu pwyntiau poen allweddol yn nhaith y cwsmer a sicrhau y cysylltir yn rhagweithiol â'r cwsmer a'i gefnogi trwy gydol y broses. Drwy sefydlu perthynas fasnachol gyda nifer fach o bartneriaid, bydd gan SLC, ac yn wir yr Adran Addysg a Llywodraeth Cymru, drosolwg a gwell rheolaeth ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'n cwsmeriaid.

Bydd y cynigywyr llwyddiannus yn rhannu ein huchelgais o hybu gwasanaeth cwsmeriaid gwych a bydd ganddynt brofiad o gyrraedd y nodau hyn mewn gwasanaethau tebyg. Rydym hefyd yn chwilio am bartneriaid a all ddangos y byddant yn gweithio'n gynhwysol gyda chynrychiolwyr y sector anabledd ac yn dod â'r partiön gorau – gan gynnwys mentrau bach a chanolig – ynghyd i wneud hyn.

Yn ail, ein gweledigaeth yw gwella gwerth am arian drwy fodel masnachol sy'n galluogi arbedion maint ac sy'n lleihau'r gost fesul eitem. Mae hyn yn dda i'r trethdalwr ond hefyd i'r sawl sy'n derbyn DSA gan y byddan nhw hefyd yn elwa o'r prisiau is hyn, gan ganiatáu i'w grant fynd ymhellach.

Y gwariant presennol ar offer technoleg gynorthwyol yw £41m y flwyddyn, gyda thua £30m arall yn cael ei wario ar asesiadau anghenion. Gwyddom fod y gost fesul trafodiad ar gyfer cais DSA yn anghymesur o uchel ar hyn o bryd, o gymharu â chynhyrchion benthyciad a grant SLC eraill, felly gallwn wella ei effeithlonrwydd. Ar yr un pryd, trwy ddatblygu a chyflwyno fframwaith ansawdd newydd byddwn yn sicrhau bod ansawdd a phrofiad cwsmeriaid wrth wraidd y diwygiadau.

Yn drydydd, rydym am gael cywirdeb mewn trefniadau yn y dyfodol. Mae'r cwmpas sylweddol ar gyfer gwrthdaro buddiannau yn y system bresennol wedi arwain at bryderon rheoleiddio diweddar. Mae'r Adran Addysg a Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr yn y sector ddarparu gwybodaeth am wrthdaro buddiannau; a monitro lefelau atgyfeirio o ganolfannau asesu i ddarparwyr penodol trwy ddata a ddarperir gan SLC, ond heb gytundebau amodol mae'n anodd sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli'n briodol gan gyflenwyr. Mae llawer o gyflenwyr o fewn y sector DSA wedi arallgyfeirio ac ar hyn o bryd yn cyflenwi nifer o feysydd gwahanol o gymorth a ariennir gan y DSA, gan gynyddu'r cwmpas ar gyfer gwrthdaro buddiannau. Bydd hyn yn cael ei reoli'n well fel rhan o'r trefniadau cytundebol newydd.



Adran 5

Y cyfleoedd i gynigyddion

Mae hwn yn gyfle unigryw i adeiladu gwasanaeth gwell a rhagorol i fyfyrwyr sy'n derbyn DSA, gan eu galluogi i fuddsoddi yn eu dyfodol trwy addysg uwch.

Bydd y model darparu diwygiedig yn newid sylweddol i'r gwasanaeth gan y bydd y partneriaid rhanbarthol yn gyfrifol am ddarparu asesiadau o anghenion, technoleg gynorthwyol a'r hyfforddiant cysylltiedig.

Dylai galw cyson a dibynadwy am y gwasanaethau sydd eu hangen alluogi partneriaid i lunio eu hadnoddau, archebu, rheoli stoc a darparu nwyddau a gwasanaethau i ddarparu gwell gwerth nag a gyflawnir ar hyn o bryd.

Gall cynigwyr strwythuro'r gwasanaethau yn y ffordd sydd orau yn eu barn nhw i ddiwallu ein hanghenion ac mae SLC yn croesawu ac yn annog cynigwyr – rhai presennol a newydd-ddyfodiaid i'r farchnad DSA – i ffurfio perthnasoedd i ganiatáu i ddulliau arloesol gael eu cynnig a chyflawni cwmpas daearyddol llawn.

Bydd y cynigwyr llwyddiannus yn un o hyd at bedwar partner ar draws y DU ac felly bydd gofyniad i sicrhau bod ansawdd a safonau yn gyson a, lle bo angen, bod cydweithredu.

Dylai llai o gyflenwyr sy'n gyfrifol am fwy o'r gwasanaeth ddarparu gwasanaeth mwy cyson i'n cwsmeriaid yn gyffredinol a, thrwy reoli contractau'n effeithiol, mae SLC yn edrych ymlaen at weithio gyda phartneriaid i wella ansawdd y gwasanaeth DSA.

Edrychwn ymlaen at y cydweithio hwn a gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwell profiad DSA.

Diolch eto i chi am eich diddordeb mewn creu profiad gwell i fyfyrwyr sy'n derbyn DSA.





Student Loans Company

www.gov.uk/slc

100 Bothwell Street
Glasgow G2 7JD
Ffôn 0141 306 2000
Ffacs 0141 306 2005

Rhif Cofrestru TAW
556 4352 32

Cofrestrwyd yn Lloegr
Rhif 2401034

Swyddfa Gofrestredig:
Memphis Building
Lingfield Point
McMullen Road
Darlington D1 1RW